# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2231 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 05/03/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Bob Summers (County Councillor) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4429 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4430 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier a J. Holt. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4431 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4432 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4472 |
| Item Title | Rheolaeth Trysorlys – Datganiad Strategaeth Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi MRP 2021/22 (yn cynnwys Dangosyddion Darbodus). |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar y Strategaeth Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) (yn cynnwys dangosyddion darbodus) i gael eu mabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, cyn yr argymhelliad terfynol i'r Cyngor.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau a gynhwysir ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at dudalen 45 ar Atodiad A, parthed yr MRP a derbyniadau cyfalaf a dywedodd y gwnaed penderfyniad yn 2018 i stopio MRP llinell syth ôl-weithredol, oedd yn hanfodol er mwyn stopio cynghorau rhag crynhoi dyled ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn awr yn canfod ei hun mewn sefyllfa ar gyfer 2022/2023 y byddai angen iddo ganfod swm sylweddol. Cododd bryderon fod Llywodraeth Cymru yn awr wedi ymgymryd i roi adolygiad cymheiriaid o systemau Rheoli Perfformiad yn ei le ac wrth symud ymlaen gallai arwain at gwestiynau anodd yn ymwneud â sut mae awdurdodau lleol yn rheoli eu cyllid. Teimlai fod angen i waith gael ei wneud cyn yr adolygiadau cymheiriad a bod angen cronfa ar wahân i dynnu ymaith beth o'r ddyled sydd yn yr arfaeth o 2022/23 ymlaen. |

| | |
|---|---|
| | Nododd y Prif Swyddog Adnoddau sylw'r Aelod.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef Datganiad Blynyddol Strategaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol a Datganiad Polisi MRP ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022 a'r Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys a gynhwysir ynddynt (Atodiad 1) ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol i'r Cyngor. |

| Item ID | 4492 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth Cyfalaf 2021/2022 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau ystyried y Strategaeth Cyfalaf (ynghlwm yn Atodiad 1) yn dilyn yr adolygiad blynyddol, i'w mabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddi a hysbysodd Aelodau fod yr adroddiad hwn wedi cysylltu'n agos gyda'r adroddiad am y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a ystyriwyd yn flaenorol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y tabl ym mharagraff 4.2.3 ar dudalen 60 am gyllido rhagolwg gwariant cyfalaf a'r cynnydd mawr o 2020/21 i 2021/22. Esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau bod y gwariant a ragwelir ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol yn adlewyrchu'r rhaglen cyfalaf bresennol. Roedd y cynnydd yn bennaf oherwydd y buddsoddiad sylweddol ar raglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor, buddsoddiadau Band B, ac roedd disgwyliad y byddai lefelau'r rhaglen cyfalaf yn cynyddu ar gyfer y blynyddoedd hynny ond byddai cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiectau hynny hefyd yn cynyddu.<br><br>Yng nghyswllt buddsoddiad Cymoedd Technoleg Llywodraeth Cymru o £100m dros gyfnod o 10 mlynedd, holodd Aelod sut y gallai Aelodau graffu a monitro'r buddsoddiad. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddir yn rhoi adroddiadau ar unrhyw ddyraniad o'r £100m a wnaed i'r Cyngor drwy adroddiadau Rhaglen Cyfalaf a Monitro Cyfalaf y Cyngor a gyflwynir i'r Cydbwyllgor Craffu Cyllideb yn chwarterol. Awgrymodd y gallai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol gynnig mwy o wybodaeth ar hyn ac mae'r Bwrdd Cymoedd Technoleg hefyd yn ymwneud gyda Llywodraeth Cymru ar sail ymgynghorol ar y ffordd orau i fuddsoddi'r arian hwnnw ym Mlaenau Gwent.<br><br>Byddai Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yn rhoi gwybodaeth fwy manwl i Aelod tu allan i'r cyfarfod am unrhyw ddyraniadau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef argymell bod y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 (Atodiad 1) yn cael ei mabwysiadu yn y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 4486 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Monitro Blynyddol 2020 System CCTV Gofod Cyhoeddus |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau (SIRO CCTV), Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Swyddog Interim Masnachol sef cyflwyno drafft Adroddiad Monitro Blynyddol CCTV Gofod Cyhoeddus ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2019 – 31 Rhagfyr 2020.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo, byddai'r Prif Swyddog Interim Masnachol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cymunedol yn atodi ac ymateb i gwestiynau lle mae angen.<br><br>Cododd Aelod bryderon am gymesuredd, gan ddweud nad oedd unrhyw gamerâu yn Nantyglo a theimlai y dylai camerâu gael eu dosbarthu'n fwy cyfartal. Cyllideb refeniw 2020/21 a neilltuwyd ar gyfer CCTV oedd £84,000 a theimlai fod hyn yn annigonol. Cododd yr Aelod bryderon hefyd yng nghyswllt cyfrinachedd a materion iechyd a diogelwch gyda swyddogion yn gweithio gartref ac yn delio gydag ymholiadau CCTV. Gwyddai'r Aelod fod gan Aelodau eraill bryderon tebyg a chynigiodd y dylid sefydlu grŵp trawsbleidiol i adolygu'r materion hyn yn fwy manwl ac i gynyddu'r gyllideb CCTV gan y teimlai nad oedd y system bresennol yn addas i'r diben.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol, yng nghyswllt gweithio gartref, dan y rheoliadau presennol fod angen i Swyddogion weithio gartref lle bynnag sy'n bosibl. Cafodd trefniadau addas eu rhoi ar waith a dim ond swyddogion oedd wedi gwneud yr hyfforddiant perthnasol fyddai'n cael gweld lluniau CCTV. Sicrhaodd Aelodau fod y trefniadau a gafodd eu rhoi ar waith yn ystod y pandemig wedi dilyn y protocol cywir. Yng nghyswllt casglu tystiolaeth a lleoliad camerâu, roedd lleoliadau presennol yn seiliedig ar ystadegau heddlu, fodd bynnag yn ystod ymgysylltu diweddar gydag Aelodau, roedd Aelodau wedi sôn am dystiolaeth golwg ehangach i roi darlun mwy cyfoethog ac fel rhan o'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer CCTV gallai edrych ar sut i gyflwyno casglu tystiolaeth ehangach. Yng nghyswllt cyllideb CCTV, cydnabu'r Swyddog fod prosesau blaenorol gosod cyllideb wedi gostwng y gyllideb CCTV.<br><br>Gofynnodd yr Aelod am eglurhad am Swyddogion yn gweithredu'r system CCTV o'u cartrefi. Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol nad oedd y system yng nghartref Swyddog ond mewn adeilad Cyngor gyda mynediad cyfyngedig, a dim ond y Swyddogion priodol oedd wedi cael yr hyfforddiant perthnasol oedd wedi eu hawdurdodi i weld y lluniau CCTV. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, roedd rhai achosion lle'r oedd Swyddogion wedi gorfod defnyddio gliniaduron ac weithiau gallent fod wedi mynd i adeilad y Cyngor i lawrlwytho mwy o luniau. Cafodd hyn ei wneud o fewn y trefniadau protocol cyffredin.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at ddifrod i gerbydau yn ei Ward a dywedodd y dylai CCTV fod ar gael ym mhob rhan o'r Fwrdeistref. Teimlai y dylai fod y |

system 24 awr wedi'i monitro i helpu'r heddlu i ddal troseddwyr ar waith. Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y bu'r symud i'r system bresennol mewn partneriaeth gyda'r heddlu, mae hyn yn system recordio byw ond nid monitro 24/7. Yng nghyswllt y sylfaen tystiolaeth ehangach, gellid gweithio gydag Aelodau i gael y sylfaen tystiolaeth ehangach tu allan i ystadegau troseddu yr heddlu.

Ailadroddodd yr Aelod ei bryderon a theimlai ei bod yn bwysig bod Aelodau, Swyddogion ac asiantaethau allanol yn dod ynghyd i adolygu'r system CCTV i'w gwneud yn addas i'r diben.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gamerâu symudol, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y prynwyd pedwar camera symudol fel rhan o'r gwariant cyfalaf, mae dau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a dau ar gael i'w defnyddio. Mae rheolau a rheoliadau am ddefnyddio camerâu symudol a rhoddir sylw i'r polisïau a'r prosesau hyn yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd yr Aelod at Atodiad J – Blaenraglen Gwaith Arfaethedig 2021/22 a chynigiodd y dylai amserlenni gael eu cynnwys yn y ddogfen fel y gallai Aelodau graffu cynnydd. Teimlai y byddai hyn yn help gydag ymestyn camerâu symudol a sicrhau eu bod wedi eu gosod yn yr ardaloedd lle mae mwyaf o angen. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y rheoliadau am gamerâu symudol yn broses gymhleth. Mae gwahanol broses ar gyfer camerâu cudd a chamerâu agored, mae angen i gamerâu agored fod yn weladwy ond nid oes angen i gamerâu cudd fod. Mae mater arall yn ymwneud â lleoliad technegol camerâu symudol; mae angen iddynt gael cyflenwad ynni a bod mewn mannau sy'n caniatáu Wi-Fi neu ddulliau eraill o drosglwyddo. Yn ogystal â'r prosesau rheoleiddiol sydd angen eu dilyn yng nghyswllt tystiolaeth gadarn, gall hefyd fod cyfyngiadau technegol posibl lle gellid defnyddio camerâu symudol.

Yng nghyswllt sylw'r Aelod am amserlenni, dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y gellid gwneud gwaith i ychwanegu cerrig milltir allweddol drwy'r Flaenraglen Gwaith i Aelodau fonitro cynnydd.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod hwn yn wasanaeth i bob partner yn cynnwys yr Heddlu, y Cyngor ac eraill. Y gwir yw nad oes gan yr Heddlu y cyllid ar gyfer y gwasanaeth ac oherwydd cyllidebau is a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, cafodd y system newydd ei chyflwyno yn 2018. Teimlai y byddai'r gwasanaeth yn sicr o wella a symud ymlaen pe gwneid buddsoddiad ychwanegol Mewn cyfarfod cyllideb yn ddiweddar, roedd Aelod wedi gofyn am i £300,000 ychwanegol gael ei fuddsoddi yn y system CCTV i gadw a gwella'r gwasanaeth. Ni chafodd hynny ei gefnogi a mynegodd ei siom ar y cyfle a gollwyd.

Dywedodd Aelod arall nad oedd y trefniadau presennol yn ddigonol i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol. Mae ef a chydweithwyr eraill wedi cwrdd gydag Arolygydd yr Heddlu ym Mlaenau Gwent a theimlai nad oedd y system yn addas i'r diben. Dywedodd y dylid ystyried symud

tuag at system Cwmwl fel y gallai'r Heddlu gael mynediad i'r system o bell neu weithredu ar sail monitro 24/7 yn yr un modd ag awdurdodau eraill.

Dywedodd Aelod yr addawyd dau gamera ar gyfer Ward Rasa pan gyflwynwyd y system newydd yn 2018 ond rydym yn dal i ddisgwyl amdanynt. Gofynnodd yr Aelod os yw'r camerâu symudol yn agored neu gudd. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y pedwar camera symudol yn agored, ac yn cael eu defnyddio'n bennaf yng nghanol trefi. Mae angen iddynt fod yn weladwy gydag arwyddion addas yn unol â'r rheoliadau. Caiff camerâu cudd yn bennaf eu defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus ar gyfer tipio anghyfreithlon ac yn y blaen mewn ardaloedd anghysbell ac maent yn llai ac ni all y cyhoedd eu gweld.

Byddai'r Swyddog yn rhoi gwybodaeth am nifer y camerâu cudd a ddefnyddir gan Iechyd Cyhoeddus a rhannau eraill o'r Cyngor drwy'r ddalen weithredu.

Yng nghyswllt y system CCTV, dywedodd yr Aelod y dywedwyd iddo fod mannau dall yn rhai o'r sefyllfaoedd camera, eu bod yn recordio 24/7 ond nad oedd unrhyw fynediad i sefyllfaoedd byw. Ni allai'r Heddlu ariannu camerâu ychwanegol yng nghanol trefi, fodd bynnag maent wedi dweud y gall fod posibilrwydd cyllid ar gyfer system Cwmwl fel y gallai'r Heddlu gael mynediad i ddelweddau byw o ddigwyddiadau fel y digwyddent. Credai fod awdurdodau lleol eraill eisoes yn defnyddio'r system Cwmwl gyda sefyllfaoedd byw a theimlai fod angen arian ychwanegol i adolygu a gwella'r gwasanaeth.

Diolchodd y Prif Swyddog Interim Masnachol i'r Aelod am ei sylwadau a dywedodd y byddai'n dilyn posibilrwydd cyllid o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i weld lle gallent fuddsoddi a chefnogi rhai agweddau o'r gwasanaeth. Cynigiodd siarad gydag Aelodau tu allan i'r cyfarfod i symud ymlaen gyda'r mater hwn.

Cyfeiriodd Aelod arall at ddarpariaeth gyfartal ar draws y fwrdeistref sirol a chododd fater y cyllid ychwanegol sydd ei angen i wella'r system CCTV yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am yr anawsterau technegol y cyfeirir atynt ym mharagraffau 5.1.1 i 5.1.4 yr adroddiad, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod camerâu yn cael eu gwirio bob wythnos i sicrhau bod pŵer yn eu cyrraedd a'u bod yn recordio. Gofynnir i'r contractwr ymchwilio os adroddir gwallau a gallent gynnwys methiant mewn rhwydwaith pŵer cyflenwr neu ddŵr yn mynd mewn, a fedrai achosi colli pŵer. Teimlai'r Swyddog y cafodd y rhan fwyaf o'r heriau technegol eu goresgyn, fodd bynnag mae rhai problemau'n parhau megis cysylltedd y rhwydwaith a'r cysylltedd o'r serfiwr yn y Ganolfan Ddinesig i weithio gartref ar hyn o bryd. Byddai cysylltedd a throsglwyddo Wi-Fi mewn rhai ardaloedd a choll pŵer bob amser tu allan i reolaeth y system.

Nodwyd fod Aelod o'r Pwyllgor Craffu hefyd yn aelod o'r Panel Troseddu a

| | |
|---|---|
| | Heddlu a byddai'n rhoi adborth ar unrhyw faterion a godir ar yr eitem hon i'r Panel eu trin a gofynnodd am gael ei gwahodd i unrhyw gyfarfodydd yn ymwneud â'r eitem yma.<br><br>Cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod y Pwyllgor Gweithredol yn ymchwilio posibiliadau cyllid ychwanegol mewn cysylltiad gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a pharatoi papur i adolygu cydraddoldeb darpariaeth ar draws y fwrdeistref.<br><br>Yng nghyswllt cydraddoldeb darpariaeth, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau fod yn rhaid i unrhyw newidiadau yn y system camera gydymffurfio gyda'r rheoliadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Comisiynydd Goruchwyliaeth. Mae angen i newidiadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd gyda'r broses briodol yn seiliedig o amgylch argymhellion y Comisiynydd Goruchwyliaeth.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod hwn yn fater pwysig i Aelodau bod y rhan fwyaf o Aelodau wedi cytuno nad oedd y system CCTV bresennol yn ddigonol ac ailadroddodd ei gynnig bod y Pwyllgor Gweithredol yn ymchwilio posibiliadau cyllid ychwanegol mewn cysylltiad gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a bod papur yn cael ei baratoi, i gynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, er mwyn adolygu cydraddoldeb darpariaeth. Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef argymell yr Adroddiad Monitro Blynyddol (yn cynnwys yr atodiadau cefnogi) i'w cymeradwyo yn y Pwyllgor Gweithredol. Ar ôl hynny cyhoeddir adroddiad a gaiff ei anfon at y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, ac argymell ymhellach fod y Pwyllgor Gweithredol yn ymchwilio posibiliadau cyllid ychwanegol ar gyfer y system mewn cysylltiad gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a dod â phapur yn ôl i'r Pwyllgor Craffu i adolygu cydraddoldeb darpariaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol. |

| Item ID | 4484 |
|---|---|
| Item Title | Defnydd Ymgynghorwyr |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i Aelodau yn ymwneud â gwariant a wnaed yn ystod 2018/2019 a 2019/2020 ar ddefnydd ymgynghorwyr i gefnogi, atodi ac ategu gwaith Swyddogion ar draws y Cyngor.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y cafodd adroddiad ar Ddefnydd Ymgynghorwyr ar gyfer 2018/2019 a 2019/2020 ei gyflwyno a'i dderbyn ym mhob Pwyllgor Craffu ac argymhellodd fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn yn y Pwyllgor hwn. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Lafur am wybodaeth bellach am AMEO Professional Services Cyf. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod AMEO yn ymgynghorwyr y gofynnwyd iddynt am gymorth yn ystod yr adolygiad dechreuol o daliadau trydydd parti. Mae'r ymgynghorwyr wedi helpu i ddatblygu strwythur a fframwaith i adolygu contractau sydd eisoes yn eu lle a dynodi'r contractau hynny y gellid eu hailnegodi gyda'r potensial o sicrhau arbedion neu well gwerth am arian. Mae'r gwaith a wnaethpwyd wedi helpu i gyflawni targedau ar wariant trydydd parti fel rhan o gynigion Pontio'r Bwlch.<br><br>Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at ddiweddaru meddalwedd gan Northgate Public Services. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau mai Northgate yw un o brif ddarparwyr y Cyngor ar gyfer pecynnau meddalwedd ariannol. Defnyddir un o'r pecynnau meddalwedd hynny i weinyddu'r gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau sydd angen diweddaru meddalwedd bob hyn â hyn. Os yw'r meddalwedd yn datblygu unrhyw broblemau mae'r arbenigedd ganddynt i unioni'r problemau hynny a sicrhau fod y feddalwedd yn gweithredu mor effeithlon ag sydd modd. Yn achlysurol, mae angen i gwmnïau gynnal gwaith cynnal a chadw cyffredinol, monitro ac uwchraddio'r system.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at Midland Software Limited a holodd os oedd hyn yn gysylltiedig gyda system iTrent. Cadarnhaodd y Prif Swyddog ei fod wedi cysylltu gyda system iTrent Datblygu Sefydliadol ac y byddai angen i unrhyw uwchraddio neu ddatblygiadau i'r system gael eu gwneud gan yr ymgynghorwyr.<br><br>Dywedodd Aelod y cafodd yr adroddiad ar ddefnydd ymgynghorwyr ei ystyried gan bob portffolio ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi enghraifft dda o sut y gallai defnydd ymgynghorwyr arwain at arbed arian. Teimlai fod nifer o enghreifftiau lle gallai defnydd ymgynghorwyr fod yn fanteisiol.<br><br>Cytunodd Arweinydd y Grŵp Llafur gyda sylwadau'r Aelod ac ychwanegu fod y weinyddiaeth flaenorol wedi defnyddio ymgynghorwyr PriceWaterhouse Coopers i edrych ar yr holl Awdurdod, a bod hynny wedi arwain at arbedion sylweddol mewn rhai gosodiadau cyllideb anodd. Teimlai mai hon oedd y ffordd iawn a chywir i ddefnyddio ymgynghorwyr.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod achlysuron pan mae defnydd ymgynghorwyr yn fanteisiol oherwydd eu harbenigedd ac mae'r adroddiad hwn yn dangos yr arbedion y gallai'r Awdurdod eu sicrhau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef nodi'r adroddiad ar Ddefnyddio Ymgynghorwyr. |

| Item ID | 4485 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 16 Ebrill 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol sy'n cyflwyno Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar gyfer y cyfarfod ar 16 Ebrill 2021 er trafodaeth a chytundeb.<br><br>Mynegodd Aelod ei siom nad yw'r adroddiad ar ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y sefydliad wedi ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer heddiw.<br><br>Nodwyd fod y Prif Swyddog Interim Masnachol wedi dweud wrth Aelodau fod proses ymgynghori gyda rhwydweithiau proffesiynol yn mynd rhagddi ar yr adroddiad Strategaeth Gweithle a gall gael ei ohirio gan gyfarfod mis Ebrill y cyfarfod.<br><br>Gofynnodd aelod am i adroddiad gael ei gyflwyno ar y system Olrhain, Canfod a Diogelu i gynnwys nifer y bobl sy'n cymryd rhan a chanlyniadau achosion i ddangos y cynnydd a wnaed. Byddai Prif Swyddog Interim Masnachol yn paratoi'r adroddiad ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1: sef cytuno ar y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod ar 16 Ebrill 2021 a pharatoi adroddiad ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol ar y system Tracio, Olrhain a Diogelu i gynnwys nifer y bobl sy'n gysylltiedig a chanlyniadau'r achosion i ddangos y cynnydd a wnaed. |